**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Senedd Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Llywodraeth Leol. Nid yw'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn ac felly nid yw'n ofynnol ei osod gerbron y Senedd. Mae'n ofynnol ei wneud (ei lofnodi), ei ddwyn i rym a'i gyhoeddi.

**Datganiad y Gweinidog/Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Senedd Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2021.

Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
19 March 2021

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1. Bydd Gorchymyn Senedd Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2021 (Gorchymyn 2021) yn pennu uchafswm y symiau y gall swyddogion canlyniadau etholaethau a swyddogion canlyniadau rhanbarthol eu hawlio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynnal etholiad y Senedd yn 2021.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1. Bydd Rheoliadau Senedd Cymru (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) 2021 yn cyd-fynd â Gorchymyn 2021. Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi sut a phryd y dylai Swyddogion Canlyniadau gyflwyno eu cyfrifon etholiadol er mwyn cael yr arian y darperir ar ei gyfer yng Ngorchymyn 2021.

2.2. Mae indemniad y Swyddogion Canlyniadau hefyd yn cyd-fynd â Gorchymyn 2021. Bydd hwn yn darparu yswiriant ychwanegol i Swyddogion Canlyniadau i gynnig amddiffyniad iddynt os byddant yn atebol am unrhyw hawliadau neu'n wynebu unrhyw hawliadau mewn perthynas ag anaf personol neu farwolaeth. Mae'r indemniad hefyd yn cwmpasu unrhyw ddeiseb etholiadol.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1. Mae erthygl 23 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020) ("Gorchymyn 2007") yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud Gorchymyn yn manylu ar daliadau am uchafsymiau am wasanaethau a rendrir a threuliau yr eir iddynt ar gyfer etholiad etholaethol a ymlid, neu mewn cysylltiad ag ef. Mae'r swm y gellir ei adennill ar gyfer gwasanaethau a rendrir yn ymwneud â gweinyddu etholiadol a chyflawni dyletswyddau sy'n ymwneud ag etholiad y Senedd gan swyddogion canlyniadol a gweinyddwyr etholiadol (i'w dalu i swyddogion canlyniadol a'u dosbarthu ymhlith gweinyddwyr etholiadol). Mae'r pŵer hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol ac nid yw'n ddarostyngedig i unrhyw un o weithdrefnau'r Senedd.

3.2. Mae erthygl 16A o Orchymyn 2007 (fel y'i mewnosodwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2016) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r costau ar gyfer agweddau cyfunol y polau gael eu dosrannu'n gyfartal rhwng y ddwy

set o etholiadau. Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am dalu'r costau hyn.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

**4.1.** Bydd Gorchymyn 2021 yn darparu ar gyfer taliadau am wasanaethau a rendrir a threuliau yr eir iddynt mewn cysylltiad â gweinyddiaeth etholiadol gan Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol mewn cysylltiad â chynnal etholiadau'r Senedd, sydd i'w cynnal ynghyd ag etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar 6 Mai 2021.

Cyfrifo’r Cyfansymiau Mwyaf sy’n Adenilladwy ar gyfer 2021

4.2. Cyfrifwyd y model ariannu ar gyfer 2021 a nodir yn y Gorchymyn gan ddefnyddio, fel sail, y symiau adenilladwy y cytunwyd arnynt a hawliwyd gan Swyddogion Canlyniadau yn 2016 gan i etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac etholiad y Senedd (Cynulliad Cenedlaethol Cymru bryd hynny) gael eu cyfuno hefyd yn 2016.

4.3. Ar gyfer Gorchymyn 2021, mae'r Cyfansymiau Mwyaf sy’n Adenilladwy wedi'u cynyddu i ystyried:

- Y gyfradd chwyddiant dros y blynyddoedd rhwng 2016 a 2021; a

- Y cynnydd yn nifer y pleidleiswyr yn dilyn estyn yr etholfraint yng Nghymru i bobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor cymwys.

Cyfrifo’r Cyfansymiau Mwyaf sy’n Adenilladwy yn gysylltiedig â’r coronafeirws

4.4. Mae Gorchymyn 2021 yn cynnwys taliadau ychwanegol fesul etholaeth Seneddol i ystyried y ffaith y bydd etholiadau mis Mai 2021 yn cael eu cynnal o dan amodau pandemig. Mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno y dylai cyllid ychwanegol fod ar gael i sicrhau diogelwch gorsafoedd pleidleisio, lleoliadau cyfrif, a’r holl staff a phleidleiswyr. Felly mae Gorchymyn 2021 yn nodi cyllid ychwanegol penodol i'r perwyl hwn.

4.5. Wrth gyfrifo'r costau sy'n gysylltiedig â sicrhau bod y polau'n cael eu cynnal yn ddiogel, cymhwyswyd cynnydd cyffredinol o 10% i'r Cyfanswm Mwyaf sy’n Adenilladwy a gyfrifwyd ar gyfer 2021. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dull a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth y DU ac felly bydd yn cael ei ailadrodd ar gyfer Cyfansymiau Mwyaf sy’n Adenilladwy etholiad y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu.

4.6. Yn ogystal â hyn, mae cyllid ychwanegol wedi'i nodi'n benodol ar gyfer costau cyfarpar diogelu personol (PPE) a hylendid. Cyfrifwyd y rhain ar sail etholaeth Seneddol. Dyma'r arian ychwanegol a gymhwysir i bob etholaeth:

- £100 i bob gorsaf bleidleisio ar gyfer menyg, masgiau wyneb a deunyddiau glanhau;
- £360 i bob gorsaf bleidleisio ar gyfer sgriniau Perspex; a
- 10% o'r Cyfanswm Mwyaf sy'n Adenilladwy yn etholaethol i dalu costau fel staff ychwanegol, arwyddion ychwanegol a gwariant penodedig arall sy'n ymwneud â Covid-19.

4.7. Yn y tabl cyntaf yn Atodlen 1 i Orchymyn 2021, caiff cyfanswm y treuliau yng ngholofn 3 eu dosbarthu ymhellach i ddangos treuliau safonol a threuliau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws. Mae hyn er mwyn rhoi eglurder i'r Swyddogion Canlyniadau ynghylch faint o arian ychwanegol yn gysylltiedig â'r coronafeirws sydd wedi'i ddarparu a sicrhau dull gweithredu cyson yn y dyfodol.

Cyfrifo'r Cyfanswm Mwyaf sy'n Adenilladwy yn Rhanbarthol

4.8. Dyrannwyd cyllid penodol hefyd er gyfer costau sy'n gysylltiedig â chynnal polau rhanbarthol. Er mwyn pennu'r dyraniad ar gyfer 2021, cymhwyswyd codiad i'r Cyfanswm Mwyaf sy'n Adenilladwy yn rhanbarthol ar gyfer 2016, yn seiliedig ar gynnydd yn nifer yr etholwyr a chwyddiant rhwng 2016 a 2021.

4.9. Fel arfer, dim ond ar gyfer costau papur pleidleisio y defnyddir yr arian hwn.

Taliadau i Swyddogion Canlyniadau a Gweinyddwyr

4.10. Mewn etholiadau Senedd blaenorol, derbyniodd Swyddogion Canlyniadau ffi bersonol am gynnal yr etholiad. Fodd bynnag, diwygiodd Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) 2020 erthygl 23 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 i ddarparu ar gyfer taliad i "weinyddwyr etholiadol" sy'n cynnwys Swyddogion Canlyniadau, dirprwy Swyddogion Canlyniadau a swyddogion cynghorau. Egwyddor y taliad yw cydnabod pwysigrwydd gwaith timau etholiadol a'r llwyth gwaith ychwanegol a roddir arnynt wrth gynnal etholiad i'r Senedd.

4.11. Felly, mae Gorchymyn 2021 yn darparu ar gyfer swm sylfaenol o £6,000 ar gyfer pob tîm etholiad craidd mewn awdurdod lleol. Ychwanegir £2,500 at y swm sylfaenol am bob etholaeth ychwanegol. Os yw'r Swyddog Canlyniadau yn Swyddog

Canlyniadau rhanbarthol hefyd, bydd y tîm etholiadol hwnnw'n cael £2,500 ychwanegol arall.

4.12. Bydd angen i Swyddogion Canlyniadau roi sicrwydd bod yr arian hwn wedi'i ddefnyddio at y diben a fwriadwyd fel rhan o'u datganiadau cyfrif etholiadol.

## 5. Ymgynghori

5.1. Ymgynghorwyd â Swyddogion Canlyniadau a'r Comisiwn Etholiadol ar y polisi a'r tablau sy'n nodi'r symiau y gellir eu hadennill ar gyfer pob etholaeth a gynhwysir yn y Gorchymyn hwn.

5.2. Cafwyd 5 ymateb gan Swyddogion Canlyniadau a'u gweinyddwyr yn cefnogi cynnwys y Gorchymyn a'r symiau sydd ar gael. Holodd un Swyddog Canlyniadau am ddarparu gwariant eithriadol ychwanegol yn ymwneud â defnyddio lleoliadau amgen. Cododd gweinyddwr ymholiadau hefyd ynghylch sut y cyfrifwyd y fformiwla a ddefnyddiwyd.

5.3. Diwygiwyd y Nodyn Cyfarwyddyd sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn yn dilyn yr ymgynghoriad, i roi mwy o eglurder a chyngor ar yr ymholiadau a godwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

### Cyflwyniad

6.1. Bydd etholiad cyffredinol nesaf y Senedd yn cael ei gynnal ar 6 Mai 2021 a chaiff ei gyfuno ag etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

6.2. Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am ad-dalu Swyddogion Canlyniadau am wasanaethau a threuliau yr eir iddynt wrth gynnal etholiad y Senedd. Mae'r symiau cyffredinol y gellir eu hadennill mewn unrhyw etholiad wedi'u pennu drwy Orchymyn.

6.3. Bydd Gorchymyn Senedd Cymru (Ffioedd Swyddogion Canlyniadau) 2021 (Gorchymyn 2021) yn darparu ar gyfer taliadau am wasanaethau a threuliau Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol mewn cysylltiad â chynnal etholiadau'r Senedd.

**Opsiwn 1-** Gwneud dim – Byddai Swyddogion Canlyniadau yn cael eu had-dalu yn seiliedig ar y Cyfanswm Mwyaf sy'n Adenilladwy a nodir yng Nhorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ffioedd Swyddogion Canlyniadau) 2016.

**Opsiwn 2 –** Cyflwyno Gorchymyn newydd i adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth ers etholiad diwethaf y Senedd ac i ddarparu cyllid ar gyfer costau mewn perthynas â Covid.

**Dadansoddiad o'r Costau a'r Manteision**

**Opsiwn 1 – Gwneud dim**

6.4. Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am wneud taliadau am wasanaethau a rendrir a cyflawni dyletswyddau sy'n ymwneud â gweinyddu etholiadol ynglyn ag etholiad y Senedd gan Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol.

6.5. Cyfunwyd etholiad cyffredinol Senedd 2016 ag etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Gwnaed darpariaeth ar gyfer talu i Swyddogion Canlyniadau am gost yr etholiad o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ffioedd Swyddogion Canlyniadau) 2016. Mae'r gorchymyn yn pennu'r uchafswm y gallai Swyddogion Canlyniadau ei hawlio gan Weinidogion Cymru am eu gwasanaethau a'u treuliau wrth gynnal etholiad y Senedd.

6.6. Mae deddfwriaeth yn darparu, os cynhelir etholiadau ar yr un diwrnod, bod rhai agweddau ar yr etholiad megis gorsafoedd pleidleisio, pleidleisiau post, cardiau pleidleisio a chostau staff yn cael eu cyfuno a bod y costau'n cael eu rhannu'n gyfartal rhwng yr etholiadau. Cyfrifwyd y cyfansymiau mwyaf sy'n adenilladwy yng Ngorchymyn 2016 yn seiliedig ar gyfuno rhai elfennau o'r etholiadau a rhannu'r costau rhwng Llywodraeth y DU a Gweinidogion Cymru.

6.7. Yn dilyn etholiad cyfunol 2016, gwnaed Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ffioedd Swyddogion Canlyniadau) (Diwygio) 2017 a oedd yn pennu'r uchafswm y caiff Swyddog Canlyniadau ei hawlio ar gyfer etholiad y Senedd yn unig.

6.8. Os na chaiff y Gorchymyn newydd ei wneud, bydd yn golygu y bydd y Cyfanswm Mwyaf sy'n Adenilladwy sydd ar gael i Swyddogion Canlyniadau ar gyfer cynnal etholiad Senedd 2021 yn seiliedig ar un etholiad yn hytrach nag etholiad cyfunol. Ni fydd yn adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol a estynnodd etholfraint llywodraeth leol i bobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor cymwys. Bydd hefyd yn golygu nad oes cyllid ychwanegol ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol hanfodol a chostau hylendid eraill y bydd yn ofynnol ei gael i gynnal etholiad yn ystod pandemig.

6.9. Os na wneir y Gorchymyn newydd, bydd yn golygu nad oes darpariaeth ar gyfer elfen gyfunol yr etholiad; ac na roddir unrhyw

gyfrif am yr arbedion cost y gellir eu priodoli i etholiad cyfunol.

**Opsiwn 2 – Gwneud Gorchymyn newydd**

6.10. Bydd Gorchymyn 2021 yn pennu'r Cyfanswm Mwyaf sy’n Adenilladwy y gall Swyddogion Canlyniadau ei hawlio gan Lywodraeth Cymru am gynnal cynnal etholiad Senedd 2021 a fydd yn cael ei gyfuno ag etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

6.11. Bydd gwneud Gorchymyn newydd yn golygu y gellir ailgyfrifo'r cyfanswm mwyaf y gellir ei adennill gan ddefnyddio data cyfredol ar nifer yr etholwyr mewn etholaeth, gan gynnwys y garfan sydd newydd ei breinio; ac y gellir cyfrif am chwyddiant yn y blynyddoedd ers yr etholiad diwethaf ac elfen gyfunol yr etholiad.

6.12. Bydd etholiad Senedd 2021 yn cael ei gynnal yn ystod pandemig y coronafeirws. Bydd y cyfansymiau mwyaf y gellir eu hadennill yn y Gorchymyn newydd yn cynnwys elfen ychwanegol ar gyfer prynu cyfarpar diogelu personol a chostau hylendid eraill. Mae'r costau ychwanegol ar gyfer mesurau y mae eu hangen at ddibenion lliniaru mewn pandemig, megis offer glanhau, trefniadau cadw pellter cymdeithasol a mesurau eraill ar gyfer diogelwch etholwyr a staff mewn gorsafoedd pleidleisio a lleoliadau cyfrif.

6.13. Cyfrifwyd y symiau ar sail etholaeth ac maent yn adlewyrchu'r costau amcangyfrifedig a ddarparwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru a gweinyddwyr etholiadol awdurdodau lleol. Y fformiwla a gymhwysir i bob etholaeth yw:

- £100 i bob gorsaf bleidleisio ar gyfer menig, masgiau wyneb a deunyddiau glanhau;
- £360 i bob gorsaf bleidleisio ar gyfer sgriniau Perspex; a
- 10% o'r Cyfanswm Mwyaf sy’n Adenilladwy etholaethol i dalu costau fel staff ychwanegol, arwyddion ychwanegol a gwariant penodedig arall sy'n ymwneud â Covid-19.

6.14. Er tryloywder, bydd y costau hyn yn cael eu nodi ar wahân yn y Gorchymyn a bydd angen i'r Swyddogion Canlyniadau hefyd gyfrif ar wahân yn eu cyfrifon am y gwariant.

6.15. Diwygiodd Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020 Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 i ddarparu ar gyfer taliad i "weinyddwyr etholiadol", a ddiffinnir fel Swyddogion Canlyniadau, dirprwy Swyddogion Canlyniadau a swyddogion cynghorau.

6.16. Egwyddor y taliad yw cydnabod pwysigrwydd gwaith timau etholiadol, a hefyd y llwyth gwaith ychwanegol a roddir arnynt, yn ystod etholiad y Senedd.

6.17. O dan daliadau'r gyfundrefn newydd, dyrannwyd swm sylfaenol o £6,000 i dîm etholiad craidd pob awdurdod lleol. Mae'r swm sylfaenol yn cynyddu £2,500 ar gyfer pob etholaeth y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol amdani. Os yw’r Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, mae'r swm yn cael ei gynyddu drwy roi swm ychwanegol arall o £2,500.

6.18. Cyfrifwyd y model ariannu a ddefnyddir i gyfrifo’r cyfanswm mwyaf y gall Swyddogion Canlyniadau ei adennill gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynnal etholiad Senedd 2021 gan ddefnyddio:

- Y symiau adenilladwy y cytunwyd arnynt a hawliwyd gan Swyddogion Canlyniadau yn etholiad y Senedd yn 2016;
- Y gyfradd chwyddiant dros y blynyddoedd rhwng 2016 a 2021; ac
- Y cynnydd yn nifer yr etholwyr yn dilyn estyn yr etholfraint yng Nghymru i bobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor cymwys.

## Rheoliadau'r Cyfrifon

6.19. Bydd Rheoliadau Senedd Cymru (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) 2021 yn cyd-fynd â Gorchymyn 2021. Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi sut a phryd y dylai Swyddogion Canlyniadau gyflwyno eu cyfrifon etholiadol i Weinidogion Cymru er mwyn cael yr arian y darperir ar ei gyfer yng Ngorchymyn 2021.

6.20. Mae Rheoliadau Senedd Cymru (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) 2021 yn dechnegol eu natur ac nid ydynt yn cael eu gwneud drwy Offeryn Statudol.  O'r herwydd, ni pharatowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau Senedd Cymru (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) 2021.